

ADRODDIAD BLYNYDDOL

CYDYMFFURFIO Â SAFONAU'R GYMRAEG

2025 - 26



CYNNWYS

1. Cyflwyniad	3
2. Cefndir / cyd-destun yr adroddiad	4
TREFNIADAU AROLYGU A MONITRO	4
3. Materion yn Codi yn Ystod y Cyfnod Adrodd	6
3.1. Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	7
3.2. Safonau Llundio Polisiâu	9
3.3. Safonau Gweithredu	10
3.4. Cadw Cofnodion a Materion Atodol	12
3.5. Sgiliau Cymraeg Gweithwyr	13
3.6. Recriwtio a Swyddi Gwag Newydd	17
3.7. Hyfforddiant yn y Gymraeg i Weithwyr	18
3.8. Hyfforddiant Iaith ac Ymwybyddiaeth Iaith i Weithwyr	18
3.9. Cwynion	20
4. Casgliadau ac argymhellion	21
 Atodiad 1 - Safonau'r Gymraeg - Archwiliad Cydymffurfio Mewnol 2024/25	 22

1. Cyflwyniad

Sefydlwyd Grŵp Llandrillo Menai yn 2012 o ganlyniad i uno Coleg Llandrillo, Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor. Mae'n cyflogi tua 1,500 o staff mewn tua 1,200 o rolau ac yn cyflwyno cyrsiau i tua 21,000 o fyfyrwyr, gan gynnwys dros 1,500 o fyfyrwyr addysg uwch, ar draws siroedd Môn, Conwy, Dinbych a Gwynedd. Nod y Grŵp yw cefnogi economi gogledd Cymru trwy arfogi pobl leol â'r sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen i sicrhau bod y rhanbarth yn gystadleuol a llwyddiannus. Gellir darllen ein cynllun strategol newydd [yma](#).

Mae Grŵp Llandrillo Menai (y Grŵp) wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog i ddysgwyr a'r cyhoedd. Yn benodol, mae'r Grŵp yn cydnabod pwysigrwydd datblygiadau uchelgeisiol a fydd yn meithrin amgylchedd a fydd yn hybu defnydd a thwf y Gymraeg ymhlith dysgwyr, staff a rhanddeiliaid allweddol.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar y Grŵp i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae'r Safonau'n egluro sut y dylai sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Yn unol â gofynion y Safonau, dyma gyhoeddi adroddiad blynyddol 2025/26 y Grŵp ar sut y bu iddo weithredu [Safonau'r Gymraeg](#). Mae'r adroddiad yn amlinellu sut y cydymffurfiodd y Grŵp â Safonau'r Gymraeg yn ystod y cyfnod rhwng 1 Awst 2024 a 31 Gorffennaf 2025.

Mae Polisi Iaith Gymraeg y Grŵp yn amlinellu ein bwriad i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i ddysgwyr a'r cyhoedd ac i ehangu ystod y ddarpariaeth addysg uwch, addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith sydd ar gael i ddysgwyr. Mae'r polisi hefyd yn amlinellu bwriad y Grŵp i gynyddu ein gweithlu dwyieithog drwy'r broses recriwtio a thrwy gynnig hyfforddiant a chefnogaeth i staff presennol y Grŵp. I gefnogi ein Polisi Iaith Gymraeg, mae gan y Grŵp gynllun gweithredu cynhwysfawr i ddatblygu dwyieithrwydd sy'n nodi targedau clir a mesuradwy i ddatblygu ymhellach fel sefydliad cwbl ddwyieithog.

Dyddiad Cyhoeddi: 31 Ionawr 2026

2. Cefndir / cyd -destun yr adroddiad

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Grŵp Llandrillo Menai (y Grŵp) i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae'r Safonau'n egluro sut y disgwylir i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Yn unol â gofynion y Safonau, dyma gyhoeddi adroddiad blynyddol 2025/26 y Grŵp ar sut y bu iddo weithredu [Safonau'r Gymraeg](#). Mae'r safonau wedi'u rhannu'n bedwar maes:

- Cyflenwi gwasanaethau
- Llunio polisïau
- Gweithredu
- Cadw cofnodion

Mae trefniadau'r Grŵp ar gyfer goruchwyllo cydymffurfiaeth â'r Safonau a hybu a hwyluso'r defnydd o wasanaethau Cymraeg i'w cael [yma](#).

TREFNIADAU AROLYGU A MONITRO

Manylion cyswllt ar gyfer cyflwyno ymholiadau: SafonauCymraeg@gllm.ac.uk

Uwch-swyddog Cyfrifol: Angharad Mai Roberts, Cyfarwyddwr Datblygu Dwyieithrwydd, Adnoddau Dysgu a Sgiliau

Cyfrifoldeb gweithredol / Trefniadau dirprwyo: Panel Iaith y Grŵp sy'n goruchwyllo'r Polisi Iaith Gymraeg. Cynhelir cyfarfodydd y Panel Iaith ddwywaith y tymor. Bydd cadeirydd y Panel Iaith yn rhannu gwybodaeth â chyfarfodydd Tîm Strategol y Grŵp a bydd y Rheolwr Datblygu Dwyieithrwydd a Chydraddoldeb yn adrodd yn ôl i gyfarfodydd y Tîm Rheoli pan fydd angen diweddarau rheolwyr ar unrhyw ddatblygiadau, arferion da, neu unrhyw feysydd / materion sydd angen sylw neu gefnogaeth bellach. Ystyrir bod pob aelod o staff yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Grŵp, ac mae ymwybyddiaeth o'r Safonau'n rhan o'r hyfforddiant cynefino a roddir i bob aelod newydd o staff. Ers mis Ionawr 2022, mae staff y Grŵp wedi cael mynediad at yr adnodd e-ddysgu 'Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg' trwy blatfform Moodle y Grŵp. Mae'r cwrs e-ddysgu hwn wedi'i ychwanegu at y rhestr o gyrsiau gorfodol i staff yng nghynllun DPP y Grŵp er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Polisi Iaith Gymraeg a Safonau'r Gymraeg.

Panel Iaith y Grŵp sy'n cymeradwyo'r adroddiad hwn. Yna bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Strategol a'r Llywodraethwyr.

Monitro: Ymgwymerir â'r gwaith monitro mewnol gan yr adran Datblygu Dwyieithrwydd. Gwneir hyn drwy ddulliau siopwr cudd (ymweliadau, galwadau ffôn, negeseuon e-bost, a gwaith pen ddesg e.e. gwirio dogfennau a chynnwys y cyfryngau cymdeithasol) a theithiau dysgu gyda'r amcan o adnabod arferion da a'r meysydd sydd angen cefnogaeth neu hyfforddiant ychwanegol. Gwneir y gwaith hwn trwy gydol flwyddyn ac adroddir y canlyniadau a'r allbynnau i'r Panel Iaith a'r rheolwyr a'r penaethiaid perthnasol. Cymerir camau dilynol pan nodir materion o ddifffyg cydymffurfio.

Yn ogystal, defnyddir canlyniadau gwaith monitro Comisiynydd y Gymraeg ac Adroddiad Sicrwydd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i gael persbectif annibynnol ac i nodi arferion da a meysydd i'w gwella.

Mae trefn gwyno'r Grŵp i'w gweld ar ein [gwefan](#), sy'n nodi'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion am gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

3. Materion yn Codi yn Ystod y Cyfnod Adrodd

Mae Grŵp Llandrillo Menai'n falch o fod yn sefydliad cwbl ddwyieithog sy'n anelu at y lefel gydymffurfio uchaf â Safonau'r Gymraeg.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn mae Grŵp Llandrillo Menai wedi parhau i ddatblygu ei wasanaethau a'i ddarpariaeth ddwyieithog, ac wedi datblygu ffyrdd newydd o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y sefydliad. Dyma rai o'r llwyddiannau a welwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn:

- Arallgyfeirio adnoddau hwyluswyr y Gymraeg i sicrhau cefnogaeth i'r adran adeiladu yng Ngholeg Llandrillo er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael pob cyfle posibl i gyflwyno'u gwaith yn y Gymraeg ac yn cael cefnogaeth briodol i weithio yn y Gymraeg
- 14 o ddosbarthiadau Cymraeg Gwaith i staff ar draws y gwahanol lefelau Cymraeg, gyda 84 aelod o staff yn mynychu'r dosbarthiadau
- Cynnig cyrsiau Cymraeg dwys ar y lefel Sylfaen am y tro cyntaf i staff y Grŵp, gyda 10 dysgwr yn sefyll arholiad Mynediad CBAC ym mis Mehefin 2025
- 95.2% o staff wedi rhoi gwybod i ni beth yw eu sgiliau Cymraeg ar ein system adnoddau dynol mewnol
- 21 aelod o staff wedi derbyn gwobrau Cymraeg am eu hymdrechion i ddysgu'r iaith neu am hyrwyddo'r Gymraeg yn eu hadrannau

3.1. Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Isod ceir crynodeb o sut y gwnaeth y Grŵp gydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau rhwng 1 Awst 2024 a 31 Gorffennaf 2025:

Maes	Safon Rhif	(Rhagfyr 2025)
Gohebiaeth (llythyrau, ymholiadau ac ati)	1-7	Arfer cyffredinol y Grŵp yw gohebu'n ddwyieithog. Mae gan y Grŵp adran gyfieithu fewnol. Mae unrhyw ohebiaeth neu ddogfennau cyhoeddus yn cael eu cyfieithu a/neu eu prawf ddarllen gan aelod o'r tîm cyfieithu er mwyn sicrhau cywirdeb iaith. Yr arfer yw ymateb i bob gohebiaeth Gymraeg yn yr iaith honno (oni bai bod y person wedi datgan nad oes angen ateb yn y Gymraeg). Yr arfer yw sicrhau nad oes unrhyw oedi wrth ateb gohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg. Cedwir cofnod o ddewis iaith pob dysgwr a phrentis cofrestredig ar systemau TGCh y Grŵp. Gweler canlyniad yr awdit mewnol ar gyfer 2024-25 yn Atodiad 1.
Galwadau ffôn a gwasanaeth y derbynfeydd	8-22 65-72	Mae holl staff y derbynfeydd yn cyfarch yn ddwyieithog wrth ateb galwadau ar brif rif ffôn (neu un o'r prif rifau ffôn), neu unrhyw rifau llinell gymorth neu ganolfan alwadau. Mae'r prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb ffôn yn chwarae neges awtomatig ddwyieithog i ddweud y gellir gadael neges yn y Gymraeg. Mae trefniadau mewn lle yn y Rhyl ac Abergele i drosglwyddo ymholiadau i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg. Nid oes angen trefniant tebyg yn CM a CMD. Mae staff ar gael i ddarparu gwasanaeth Cymraeg yn holl dderbynfeydd campysau'r Grŵp. Mae staff dwyieithog yn gwisgo laniard 'Cymraeg' y Grŵp i ddangos i ymwelwyr eu bod yn siarad Cymraeg a'u bod yn gallu cynnig gwasanaeth derbynfa yn y Gymraeg. Arddangosir arwyddion yn y derbynfeydd i groesawu unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg. Cynigir gwersi Cymraeg i staff y derbynfeydd nad ydynt yn gwbl rugl, neu sy'n ddihyder, er mwyn datblygu eu sgiliau a'u hyder ymhellach. Gweler canlyniad yr awdit mewnol ar gyfer 2024-25 yn Atodiad 1.
Cyfarfodydd	24-36	Mae staff y Grŵp wedi derbyn arweiniad a hyfforddiant ar yr angen i gynnal cyfarfodydd yn y Gymraeg wrth wahodd unigolion i gyfarfodydd. Cynigir hyfforddiant diweddarau yn rheolaidd fel rhan o'n cynllun DPP yn ogystal â sesiynau cynefino i staff newydd sy'n cynnwys hyfforddiant ar ofynion Safonau'r Gymraeg arnom ni fel sefydliad.
Cyhoeddusrwydd a marchnata, dogfennau a ffurflenni	37-38 43-54 73-79	Mae'r holl ddeunydd cyhoeddusrwydd a marchnata a gynhyrchir, a'r holl ddeunydd a arddangosir yn gyhoeddus gan y Grŵp, yn cael eu cynhyrchu/arddangos yn ddwyieithog.

		Mae dogfennau a deunyddiau marchnata yn cael eu cyfieithu a/neu eu prawf ddarllen gan aelod o'r tîm cyfieithu i sicrhau cywirdeb iaith. Mae unrhyw beth a gynhyrchir yn gorfforaethol (prospectysau ac ati) yn dynodi ein bod yn hapus i dderbyn gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Gweler canlyniad yr awdit mewnol ar gyfer 2024-25 yn Atodiad 1.
Digwyddiadau cyhoeddus	40-42	Cynhyrchir yr holl wybodaeth mewn perthynas â seremonïau graddio a gwobrwyo'n ddwyieithog. Gwahoddir siaradwyr gwadd i siarad yn y Gymraeg a darperir cyfieithu ar y pryd pan wneir areithiau a chyflwyniadau yn y Gymraeg.
Presenoldeb ar-lein	55-64	Mae gwefan y Grŵp yn gwbl ddwyieithog gyda'r opsiwn i ddewis iaith wrth agor y wefan. Gall unigolion newid o'r fersiwn Cymraeg i'r fersiwn Saesneg trwy ddewis iaith ar frig y dudalen yn ôl yr angen. Mae'r tîm marchnata'n gwirio'r wefan o bryd i'w gilydd i sicrhau nad oes anghysondebau yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg. Mae gwefan y Grŵp hefyd yn cael ei monitro fel rhan o'r awdit mewnol. Cyhoeddir pob neges yn ddwyieithog ar holl lwyfannau cyfryngau cymdeithasol swyddogol y Grŵp. Mae'r adran farchnata wedi datblygu canllawiau ar gyfer staff marchnata o ran cyfieithu postiadau cyfryngau cymdeithasol ac erthyglau o'r Saesneg i'r Gymraeg. Os bydd unrhyw bostiad neu erthygl Cymraeg yn anghywir, caiff y rhain eu diwygio ar unwaith a'u cofnodi ar daflen a gedwir gan y rheolwr llinell. Os bydd aelod o'r tîm yn parhau i wneud camgymeriadau, yna darperir hyfforddiant. Gweler canlyniad yr awdit mewnol ar gyfer 2024-25 yn Atodiad 1.
Caffael	80-84	Cyhoeddir gwahoddiadau i dendro yn y Gymraeg lle mae testun y cytundeb yn awgrymu y dylid ei gyhoeddi yn y Gymraeg, neu os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyladau, yn awgrymu y dylid cyhoeddi'r gwahoddiad yn y Gymraeg. Cyhoeddwyd 0 tendr yn y Gymraeg yn 2024/25 a chafwyd 0 ymateb tendro Cymraeg yn yr un cyfnod. Fodd bynnag, pe bai cyd-destun y tendr yn gofyn neu'n disgwyl y Gymraeg, yna byddai'r Tendr yn cael ei gyhoeddi yn y Gymraeg. Mae hyn yn rhywbeth y mae'r adran Gaffael wedi ymrwymo iddo ac wedi'i weithredu mewn blynyddoedd blaenorol.
Hyrwyddo'r Gymraeg	85-87	Mae dysgwyr yn y Grŵp yn cael gwybod am eu hawliau o dan Safonau'r Gymraeg yn ystod y cyfnod cynefino ac yn ystod sesiynau tiwtorial. Mae'r Grŵp hefyd yn cymryd rhan yn yr ymgyrch 'Defnyddia dy Gymraeg' a'r 'Diwrnod Hawliau'r Gymraeg' blynyddol gyda gweithgareddau codi ymwybyddiaeth yn cael eu cynnal ar bob campws. Anogir dysgwyr y Grŵp i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg tu allan i'r dosbarth. Gwneir hyn trwy ddefnyddio'r pecyn 'Seren iaith' a sesiynau tiwtorial gan swyddogion Cangen Coleg Cymraeg Cenedlaethol y Grŵp. Ymgwymerir â holl weithgareddau hyrwyddo'r Grŵp yn y Gymraeg a'r Saesneg, neu'n ddwyieithog.

Dysgwyr a chyfleoedd dysgu	88-93	Mae dysgwyr y Grŵp yn cael gwybod am eu hawliau o dan Safonau'r Gymraeg yn ystod y cyfnod cynefino ac yn ystod sesiynau tiwtorial. Mae'r Grŵp hefyd yn cymryd rhan yn yr ymgyrch 'Defnyddia dy Gymraeg' a'r 'Diwrnod Hawliau'r Gymraeg' blynyddol gyda gweithgareddau codi ymwybyddiaeth yn cael eu cynnal ar bob campws. Mae gan ddysgwyr hefyd fynediad at wefan 'Cefnogaeth gyda'r Gymraeg', a ddatblygwyd yn fewnol ac sy'n darparu gwybodaeth am eu hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg, a dolenni i offer ac adnoddau defnyddiol. Mae swyddogion cangen Coleg Cymraeg Cenedlaethol y Grŵp yn hyrwyddo gwerth y Gymraeg fel sgîl ymhlith dysgwyr, ac yn trefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau i roi ystod eang o gyfleoedd i ddysgwyr ymarfer a defnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol a chymdeithasol. Mae gan ddysgwyr y Grŵp fynediad at y pecyn e-ddysgu 'Seren laith', sy'n cynnwys pum uned wahanol er mwyn cyfoethogi eu dealltwriaeth o bwysigrwydd diwylliant y Gymraeg a chyflogadwyedd yn y Gymraeg. Mae'r pecyn hefyd yn hyrwyddo defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ac yn annog dysgwyr i fanteisio ar eu sgiliau dwyieithog. Mae pedwar Hwylusydd y Gymraeg wedi'u cyflogi i gefnogi pedwar maes rhaglen sy'n flaenoriaeth i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, fel y ganlyn: • Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus (Coleg Llandrillo) – hyd at Orffennaf 2025 • Gwasanaethau Cyhoeddus (Coleg Llandrillo) a Gofal Anifeiliaid (Glynllifon) – hyd at Orffennaf 2025 • Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Coleg Llandrillo, Addysg Bellach a Dysgu yn y Gweithle) – hyd at Orffennaf 2025 • Diwydiannau Creadigol a Busnes (Coleg Llandrillo) – hyd at Orffennaf 2025
----------------------------	-------	--

3.2. Safonau Llunio Polisiâu

Isod ceir crynodeb o sut y gwnaeth y Grŵp gydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisiâu rhwng 1 Awst 2024 a 31 Gorffennaf 2025:

Maes	Safon Rhif	(Rhagfyr 2025)
Llunio polisiâu neu addasu polisiâu presennol	94-104	Mae pob polisi newydd a phob polisi sy'n cael ei addasu yn cael ei asesu ar gyfer ei effaith ar y Gymraeg. Pan fo angen diwygiadau i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, caiff polisiâu eu dychwelyd at y sawl a'u creodd. Mae'r Panel laith yn craffu ar bob asesiad o effaith polisiâu ar y Gymraeg. Mae Grŵp Strategol y Cwricwlwm yn ystyried y cyrsiau newydd a gyflwynir neu'r newidiadau a wneir i gyrsiau presennol. Fel rhan o'r broses honno ystyrir yr effaith ar y Gymraeg. Gweler canlyniad yr awdit mewnol ar gyfer 2024-25 yn Atodiad 1.

3.3. Safonau Gweithredu

Isod ceir crynodeb o sut y cydymffurfiodd y Grŵp â'r Safonau Gweithredu rhwng 1 Awst 2024 a 31 Gorffennaf 2025:

ArMaes	Safon Rhif	Diweddariad (Rhagfyr 2025)
Polisi Iaith Gymraeg	105	Mae gan y Grŵp Bolisi Iaith Gymraeg (diweddarwyd ddiwethaf Mehefin 2023) a Gweithdrefn Weithredol ar y Gymraeg a Dwyieithrwydd sy'n cyd-fynd ag ef. Mae'r ddwy ddogfen ar gael i staff drwy Borth y Grŵp.
Gweithwyr	106-111 119-126 134 141-144	Mae system AD y Grŵp (MyView) yn galluogi staff i ddatgan eu sgiliau Cymraeg eu hunain a chofnodi eu dewis iaith gyfathrebu. Mae rhyngwyneb 'MyView' ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg a gall staff ddewis pa iaith i'w defnyddio pan fyddant yn mewngofnodi i'r system. Defnyddir system MyView i gofnodi gwyliau blynyddol, absenoldebau, TOIL, adolygu perfformiad, ac mae'n rhoi mynediad i slipi cyflog a P60; gellir gweld pob un ohonynt yn y Gymraeg os dewisir y Gymraeg wrth fewngofnodi. Mae'r holl wasanaethau, prosesau a dogfennau sy'n ymwneud â chyflogi staff ar gael yn y Gymraeg. Rhoddir laniard 'Cymraeg' y Grŵp i bob aelod o staff sy'n siarad Cymraeg a disgwylir iddynt wisgo'r laniard yn eu gwaith. Darperir laniard sy'n datgan 'dw i'n dysgu Cymraeg' i'r aelodau hynny sy'n mynychu gwersi neu'n teimlo'n ddihyder yn eu sgiliau dwyieithog. Mae'r staff hynny nad ydynt yn rhugl yn cael y cyfle i fynychu cyrsiau Cymraeg Gwaith yn ystod eu horiau gwaith, neu i ddilyn cwrs hunan-astudio i ddysgu Cymraeg. Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn ychwanegwyd cwrs dysgu Cymraeg dwys (5 awr yr wythnos) ar lefel Sylfaen i'r arlwy o wersi Cymraeg i staff. Mae cyfleoedd eraill, anffurfiol, i ymarfer a datblygu sgiliau Cymraeg yn cael eu cynnig i staff, gan gynnwys 'Dros Banded' (sgwrs dros banded o de/cinio), a 'Bydis Cymraeg' (lle maent yn cael eu paru â siaradwr Cymraeg rhugl ac yn cyfarfod yn rheolaidd am sgwrs). Cyrsiau Cymraeg Dwys i Staff Mae Grŵp Llandrillo Menai yn cynnig cyrsiau dysgu Cymraeg dwys i staff. Mae hyn yn golygu y gall staff fynychu gwersi Cymraeg am bump awr yr wythnos, yn lle'r ddwy awr sy'n arferol. Mae'r cyrsiau hyn yn cael eu cynnig fel rhan o'n polisi recriwtio newydd a gofynnir i'r adran Adnoddau Dynol gyfeirio aelodau staff newydd, sydd â'u Cymraeg un lefel yn is na'r hyn a nodir yn y swydd disgrifiad, at ein tiwtoriaid iaith. Mae croeso hefyd i aelodau staff presennol fynychu cyrsiau dysgu dwys y Grŵp.
Meddalwedd cyfrifiadurol a Systemau Ar-lein	127-133	Mae gan bob aelod o staff fynediad at feddalwedd cyfrifiadurol i wirio sillafu a gramadeg Cymraeg. • Mae holl beiriannau rhwydwaith y coleg yn cynnwys pecyn Cysgliad • Mae pawb sydd wedi cael offer gan y Grŵp i weithio gartref wedi derbyn offer sy'n cynnwys pecyn Cysgliad • Mae staff a dysgwyr wedi cael gwybodaeth ar sut i lawrlwytho pecyn Cysgliad am ddim ar offer personol Gweler canlyniad yr awdit mewnol ar gyfer 2024-25 yn Atodiad 1.

Hyfforddi Staff	135-140	Mae'r holl staff yn cael cynnig cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, o ddechreuwr hyd at lefel hyfedredd. Mae gan staff y dewis o fynychu gwers ddwy awr wythnosol gyda thiwtor Cymraeg yn ystod eu diwrnod gwaith arferol, neu gwblhau cwrs hunan-astudio ar-lein. Mae'r Grŵp bellach yn cynnig cyrsiau Cymraeg dwys i staff hefyd. Mae'r cyrsiau hyn yn cael eu cynnig yn bennaf i staff newydd er mwyn gwella eu Cymraeg cyn gynted â phosibl i ddiwallu anghenion y swydd, ond mae hefyd ar gael i staff presennol y Grŵp (gyda chytundeb eu rheolwr llinell). Mae'r Grŵp hefyd yn cynnig rhaglen DPP gynhwysfawr i staff. Mae llawer o'r cyrsiau a gynigir ac a gyflwynir ar gael yn y Gymraeg/dwyieithog. Lle cyflwynir cyrsiau a restrir yn yr hysbysiad cydymffurfio bydd opsiwn Cymraeg/dwyieithog ar gael i staff. Cynhaliwyd dwy sesiwn hyfforddi i reolwyr y Grŵp ar ein cyfrifoldebau'n ymwneud â'r Safonau laith un ym mis Rhagfyr 2024 ac un ym mis Ionawr 2025. Bwriad y sesiynau hyfforddi hyn oedd rhoi diweddariad i reolwyr ynglŷn â chyfrifoldebau'r Grŵp o dan y Safonau laith, hawliau staff a hawliau dysgwyr a sut y byddant yn gallu cefnogi staff i fodloni gofynion y Safonau. Mynychodd 38 aelod o staff y sesiynau hyn. Gweler canlyniad yr awdit mewnol ar gyfer 2024-25 yn Atodiad 1.
Swyddi gwag a phenodi staff newydd	145-149	Mae gofynion sgiliau Cymraeg swyddi newydd a gwag yn cael eu hasesu a cheir manylion yn y disgrifiad swydd. Mae pob swydd wag yn cael ei hysbysebu yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae'r Grŵp yn croesawu ceisiadau Cymraeg. Mae ffurflen gais swyddi'r Grŵp yn gofyn i ymgeiswyr a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad neu mewn unrhyw ddull asesu arall. Ar adegau, pan ymgeisydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg a bod aelodau'r panel cyfworld yn ddi-Gymraeg, defnyddio cyfieithu ar y pryd. Mae gwaith o adolygu'r dull o wneud ceisiadau am swyddi'n parhau, wrth i'r Grŵp symud i broses ymgeisio ar-lein. Bydd y ffurflen gais ar-lein newydd ar gael yn y Gymraeg. Mae'r Grŵp hefyd wedi adolygu ei bolisi recriwtio, gan edrych yn benodol ar ofynion sgiliau Cymraeg pob swydd newydd er mwyn cryfhau ymrwymiad y Grŵp i ddatblygu gweithlu dwyieithog. I gefnogi gweithrediad y polisi recriwtio newydd, mae cwrs Cymraeg dwys wedi'i sefydlu, a chyfeirir staff at y cwrs dwys yn y cyfnod recriwtio pan fo angen iddynt ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.
Arwyddion	150-152	Mae'r holl ddeunydd swyddogol ar walïau'r coleg yn ddwyieithog. Gweler canlyniad yr awdit mewnol ar gyfer 2024-25 yn Atodiad 1.

3.4.Cadw cofnodion a materion atodol

Isod ceir crynodeb o sut y cydymffurfiodd y Grŵp â'r Safonau Cadw Cofnodion rhwng 1 Awst 2024 a 31 Gorffennaf 2025:

Maes	Safon Rhif	Diweddariad (Rhagfyr 2025)
Cadw cofnodion - cwynion	154 - 156 164, 170 176	Mae pob cwyn a dderbynnir yn cael ei rheoli gan Gyfarwyddwr Llywodraethu a Gwybodaeth y Grŵp. Cofnodir manylion pob cwyn, yr ymchwiliad dilynol a'r canfyddiadau.

Cofnodion - gweithwyr	158-162	Mae adran Adnoddau Dynol y Grŵp yn rheoli'r holl gofnodion sy'n ymwneud â staff a recriwtio. Gall staff hunan-ddatgan eu sgiliau Cymraeg drwy 'My View', ein porth AD. Ers mis Medi 2022 mae staff yn gallu cwblhau 'Gwiriwr Lefelau' y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i asesu eu sgiliau Cymraeg os dymunant. Ers Medi 2022, mae'r 'Gwiriwr Lefelau' yn orfodol i bob aelod newydd o staff a gaiff ei recriwtio gydag amod cyflogaeth i ddysgu Cymraeg.
Cofnodi ac adrodd	157 163 165-169 171-175 177-182	Mae'r tîm Datblygu Dwyieithrwydd, sy'n adrodd i'r Panel Iaith, yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth a darparu cefnogaeth, arweiniad a hyfforddiant i staff yn ôl yr angen. Cynhelir awdit mewnol o gydymffurfiaeth yn flynyddol a chynhelir gwiriadau ar hap yn rheolaidd i wirio cydymffurfiaeth, gydag unrhyw faterion sy'n codi yn cael eu hadrodd i'r Panel Iaith a'r rheolwyr perthnasol. Yn dilyn yr awdit blynyddol, creir cynllun gweithredu / datblygu ansawdd sy'n cael ei fonitro gan y Panel Iaith.

3.5. Sgiliau Cymraeg Gweithwyr

Mae'r tablau isod yn amlinellu'r wybodaeth sydd gan y Grŵp am sgiliau Cymraeg ei staff, ac yn cynnwys pob rôl yn y Grŵp:

Llythrennedd	Gwasanaethau Academaidd						Gwasanaethau Corfforaethol						Grŵp					
	2024-25		2023-24		2022-23		2024-25		2023-24		2022-23		2024-25		2023-24		2022-23	
Rhugl B2/C1	164	39%	138	37%	148	38.9%	47	31%	44	30%	49	31.0%	632	36%	563	36%	656	36.1%
Canolradd B1	42	10%	39	11%	37	9.7%	12	8%	12	8%	14	8.9%	194	11%	165	11%	178	9.8%
Sylfaenol A2	115	27%	102	28%	95	25.0%	36	24%	38	26%	36	22.8%	426	24%	386	25%	449	24.7%
Mynediad A1	15	4%	9	2%	-	-	10	7%	7	5%	-	-	79	5%	56	4%	-	-
Cwrteisi leithyddol	66	16%	63	17%	-	-	42	28%	41	28%	-	-	336	19%	301	19%	-	-
Dim Cymraeg	1	0.2%	-	-	71	18.7%	0		-	-	46	29.1%	1	0.06%	-	-	376	20.7%
Anhysbys	21	5%	19	5%	29	7.6%	5	3%	4	3%	13	8.2%	91	5%	80	5%	160	8.8%
Dealltwriaeth	Gwasanaethau Academaidd						Gwasanaethau Corfforaethol						Grŵp					
	2024-25		2023-24		2022-23		2024-25		2023-24		2022-23		2024-25		2023-24		2022-23	
Rhugl B2/C1	180	42.5%	153	41%	163	42.9%	56	37%	53	36%	62	39.2%	753	43%	671	43%	760	41.8%
Canolradd B1	54	13%	49	13%	41	10.8%	10	7%	10	7%	11	7.0%	201	11%	170	11%	196	10.8%
Sylfaenol A2	113	27%	101	27%	106	27.9%	45	30%	48	33%	44	27.8%	423	24%	385	25%	471	25.9%
Mynediad A1	13	3%	9	2%	-	-	8	5%	5	3%	-	-	76	4%	58	4%	-	-
Cwrteisi leithyddol	42	10%	41	11%			28	18%	26	18%			213	12%	188	12%		
Dim Cymraeg	1	0.2%	-	-	43	11.3%	0		-	-	30	19.0%	1	0.06%	-	-	236	13.0%
Anhysbys	21	5%	17	5%	27	7.1%	5	3%	4	3%	11	7.0%	92	5%	79	5%	156	8.6%

Llafar	Gwasanaethau Academaidd						Gwasanaethau Corfforaethol						Grŵp					
	2024-25		2023-24		2022-23		2024-25		2023-24		2022-23		2024-25		2023-24		2022-23	
Rhugl B2/C1	170	40%	145	39%	156	41.1%	54	36%	51	35%	58	36.7%	711	40%	637	41%	733	40.3%
Canolradd B1	40	9%	37	10%	31	8.2%	10	7%	10	7%	12	7.6%	167	10%	145	9%	157	8.6%
Sylfaenol A2	120	28%	109	29%	110	28.9%	39	26%	40	27%	36	22.8%	439	25%	393	25%	476	26.2%
Mynediad A1	17	4%	11	3%	-	-	8	5%	6	4%	-	-	81	5%	60	4%	-	-
Cwrteisi leithyddol	53	12.5%	48	13%	-	-	36	24%	35	24%	-	-	267	15%	235	15%	-	-
Dim Cymraeg	1	0.2%	-	-	53	13.9%	-	-	-	-	39	24.7%	1	0.06%	-	-	292	16.1%
Anhysbys	23	5%	20	5%	30	7.9%	5	3%	4	3%	13	8.2%	93	5%	81	3%	161	8.9%
	424		370		380		152		146		158		1759		1551		1819	
Llythrennedd	Busnes@						Coleg Llandrillo						Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor					
	2024-25		2023-24		2022-23		2024-25		2023-24		2022-23		2024-25		2023-24		2022-23	
Rhugl B2/C1	116	41%	109	42%	119	42.2%	41	10%	34	10%	37	10.8%	261	53%	236	55%	246	51.9%
Canolradd B1	40	14%	34	13%	34	12.1%	35	9%	29	9%	29	8.5%	65	13%	51	12%	49	10.3%
Sylfaenol A2	63	22%	59	23%	65	23.0%	137	34%	121	36%	131	38.2%	74	15%	65	15%	75	15.8%
Mynediad A1	7	3%	5	2%	-	-	30	7%	16	5%	-	-	17	4%	19	4%	-	-
Cwrteisi leithyddol	50	18%	47	18%	-	-	136	33%	116	34%	-	-	42	9%	34	8%	-	-
Dim Cymraeg	-	-	-	-	56	19.9%	-	-	-	-	113	32.9%	-	-	-	-	43	9.1%
Anhysbys	5	2%	5	2%	8	2.8%	30	7%	24	7%	33	9.6%	30	6%	28	6%	61	12.9%
Dealltwriaeth	Busnes@						Coleg Llandrillo						Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor					
	2024-25		2023-24		2022-23		2024-25		2023-24		2022-23		2024-25		2023-24		2022-23	
Rhugl B2/C1	146	53%	135	52%	142	50.4%	57	14%	47	14%	48	14.0%	311	64%	281	65%	276	58.2%
Canolradd B1	40	14%	31	12%	30	10.6%	49	12%	43	13%	46	13.4%	48	10%	37	9%	49	10.3%
Sylfaenol A2	54	19%	55	21%	68	24.1%	151	37%	131	39%	147	42.9%	59	12%	49	11%	64	13.5%
Mynediad A1	6	2%	8	3%	-	-	36	9%	20	6%	-	-	13	3%	16	4%	-	-
Cwrteisi leithyddol	29	10%	24	9%	-	-	86	21%	75	22%	-	-	28	6%	22	5%	-	-

Dim Cymraeg	-	-	-	-	34	12.1%	-	-	-	-	69	20.1%	-	-	-	-	24	5.1%
Anhysbys	6	2%	6	2%	8	2.8%	30	7%	24	7%	33	9.6%	30	6%	28	6%	61	12.9%
Llafar	Busnes@						Coleg Llandrillo						Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor					
	2024-25		2023-24		2022-23		2024-25		2023-24		2022-23		2024-25		2023-24		2022-23	
Rhugl B2/C1	136	48%	127	49%	136	48.2%	55	13%	45	13%	47	13.7%	293	60%	267	62%	270	57.0%
Canolradd B1	38	14%	29	11%	27	9.6%	31	8%	29	9%	31	9.0%	48	10%	40	9%	40	8.4%
Sylfaenol A2	66	24%	64	25%	74	26.2%	145	36%	124	36%	141	41.1%	68	14%	55	13%	70	14.8%
Mynediad A1	4	1%	5	2%	-	-	36	9%	20	6%	-	-	16	3%	18	4%	-	-
Cwrteisi leithyddol	32	11%	29	11%	-	-	112	27%	98	29%	-	-	34	7%	25	6%	-	-
Dim Cymraeg	-	-	-	-	37	13.1%	-	-	-	-	91	26.5%	-	-	-	-	33	7.0%
Anhysbys	5	2%	5	2%	8	2.8%	30	7%	24	7%	33	9.6%	30	6%	28	6%	61	12.9%
Cyfanswm	281		259		282		409		340		343		489		433		474	

Mae systemau Adnoddau Dynol y Grŵp yn gofyn i staff adrodd ar eu sgiliau iaith fel y ganlyn – Rhugl, Canolradd, Sylfaen, Mynediad neu Gwrteisi leithyddol. Cytunwyd ar y labeli hyn fel bod ein polisi recriwtio yn cyd-fynd â lefelau iaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Ers i'n polisi recriwtio cyfredol dod i rym, nid yw'r Grŵp bellach yn hysbysebu swyddi fel rhai 'Dim Cymraeg' nac yn gofyn i unigolion adrodd hynny. Yn hytrach, rydym ni'n defnyddio'r categori 'Cwrteisi leithyddol'. Mae'r labeli hyn yn galluogi rheolwyr i adnabod unigolion sydd â sgiliau iaith is na'r hyn a nodwyd yn y swydd disgrifiad, ac yna'n ein galluogi ni i nodi cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Ar gyfartaledd yn 2024/25, mae 711 neu 40% (cynnydd mewn nifer o 85 ers 2023/24 ond nid mewn canran) o weithwyr y Grŵp yn nodi eu bod yn rhugl yn y Gymraeg (ar draws y tri sgîl). Dywedodd 267, neu 15% (cynnydd o 241, 15% ers 2023/24) o'r staff bod ganddynt sgiliau Cymraeg ar lefel Cwrteisi leithyddol. Cesglir sgiliau Cymraeg gweithwyr y Grŵp ar ein system Adnoddau Dynol mewnol (MyView). Mae'n ofynnol i bob aelod o staff ddiweddarau'r adran berthnasol ar eu proffil personol. Mae nifer y staff sydd heb gwblhau'r adran hon wedi lleihau gyda 5% o staff heb gwblhau'r adran hon yn 2024/25 o gymharu â 12% yn 2023/24. Mae'r gofyniad i llenwi'r ffurflen hon yn parhau i gael ei gynnwys yn ffurflenni adolygiad blynyddol staff ac felly dylem weld gostyngiad parhaus yn nifer y staff nad ydynt wedi llenwi'r ffurflen eto. Rydym ni'n priodoli'r nifer uwch o staff sy'n rhugl a'r rhai nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg i'r ffaith bod staff yn rhoi'r wybodaeth ar ein systemau ac felly'n rhoi darlun cywirach i ni o sgiliau Cymraeg ein staff.

Mae gan y Grŵp gynlluniau datblygu gweithlu clir sy'n cynnwys datblygiadau yn ein Polisi Recriwtio ac yn y Rhaglen Dysgu Cymraeg Ddwys i staff.

3.6. Recriwtio a Swyddi Gwag Newydd

Mae ein data recriwtio mewn blynyddoedd academiaidd, felly mae'n cwmpasu 01/09/24 - 31/08/25. Yn ystod y cyfnod hwn fe wnaethom ni reoli 113 o brosesau recriwtio. O'r rhain, hysbysebwyd 31 swydd (27%) fel rhai a oedd angen sgiliau deall Cymraeg rhugl. Hysbysebwyd 31 swydd (27%) fel rhai a oedd angen cwrteisi ieithyddol. Canolradd oedd y lefel iaith a defnyddiwyd fwyaf. Hysbysebwyd 113 o swyddi fel rhai a oedd angen sgiliau deall a siarad Cymraeg ar lefel Canolradd (100%). Defnyddiwyd diffiniadau ein polisi recriwtio i lunio'r gofynion hyn. Ar hyn o bryd, nid yw'r Grŵp yn defnyddio'r categori 'Dim angen sgiliau Cymraeg'.

Mae 'Polisi Recriwtio a Dethol Staff' (Medi, 2022) yn cryfhau ymrwymiad y Grŵp i ddatblygu gweithlu dwyieithog, gan wneud sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer pob swydd, ond gan wahaniaethu rhwng y gwahanol sgiliau (dealltwriaeth, siarad a llythrennedd), a lefelau fel y bo'n briodol ar gyfer pob swydd.

Mae pob swydd a hysbysebir yn cynnwys elfennau hanfodol o sgiliau Cymraeg. Gall hyn gynnwys cyfuniad o sgiliau hanfodol a dymunol neu'r holl sgiliau hanfodol. Isod, ceir data ynglŷn â'r prosesau recriwtio a weithredwyd yn ystod y cyfnod adrodd 2024/25.

Lefel iaith *** Sgil	Rhugl	Canolradd	Sylfaenol	Mynediad	Cwrteisi leithyddol	Heb gofnodi	CYFANSWM
Siarad	39	13	21	15	21	4	113
Dealltwriaeth	42	14	18	17	18	4	113
Llythrennedd	46	19	16	14	14	4	113
CYFANSWM	127	46	55	46	53	12	

Yn ogystal â pholisi recriwtio sy'n rhoi pwyslais ar sgiliau Cymraeg, mae gan y Grŵp raglen dysgu Cymraeg ddwys i staff. Mae hyn bellach yn rhan o'n polisi recriwtio ac yn cael ei chynnig pan fo gan staff sgiliau Cymraeg is na'r hyn y gofynnwyd amdanynt yn yr hysbyseb. Yn dilyn ein cwrs dysgu Cymraeg dwys, safodd tri unigolyn arholiad Mynediad a chwe unigolyn arholiad Sylfaen CBAC ym mis Mehefin 2025 gyda phawb yn llwyddo. Ni dderbyniodd yr adran Adnoddau Dynol gais a arweiniodd at benodi unigolion â sgiliau iaith un lefel yn is na'r hyn a hysbysebwyd.

3.7. Hyfforddiant yn y Gymraeg i Weithwyr

Maes Hyfforddiant	Nifer yn mynychu sesiynau Cymraeg	% yn mynychu sesiynau Cymraeg	Nifer yn mynychu sesiynau Saesneg	Nifer yn mynychu sesiynau dwyieithog	% yn mynychu sesiynau dwyieithog
Recriwtio a chyfweld	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A
Rheoli perfformiad	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A
Y drefn gwyno a disgyblu	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A
Delio â'r cyhoedd	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A
Cynefino staff	N/A	N/A	N/A	22	100%
Iechyd a diogelwch	N/A	N/A	N/A	1094	100%

3.8. Hyfforddiant Iaith ac Ymwybyddiaeth Iaith i Weithwyr


- Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i gefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ac i ddarparu ystod o gyrsiau i staff trwy'r rhaglen Cymraeg Gwaith. Mae'r dosbarthiadau hyn ar gael i staff yn ystod oriau gwaith. Gall staff ddewis mynychu gwersi dwy awr yr wythnos gyda thiwtor neu gwblhau cwrs hunan-astudio ar-lein. Mae'r cynllun Cymraeg Gwaith yn cyd-fynd â'r flwyddyn academiaidd bob blwyddyn a chesglir data yn unol â hynny. Cwblhaodd ein dysgwyr Mynediad cyntaf eu cwrs dwys yn ystod 2023/24 ac adeiladwyd ar lwyddiant y cynllun yn 24/25 gyda dosbarthiadau dwys yn cael eu cynnal ar lefelau Mynediad a Sylfaen. Yn 24/25 cwblhaodd tri unigolyn y cwrs Mynediad gyda phob un yn llwyddiannus yn arholiad Mynediad CBAC a chwblhaodd chwech y cwrs Sylfaen a llwyddo yn arholiad Sylfaen CBAC. Roedd chwech o'r rhain yn staff academiaidd a oedd yn awyddus i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg i addysgu'n ddwyieithog. Ni chafodd yr aelodau staff hyn eu cyfeirio atom gan yr adran Adnoddau Dynol. Cysylltodd yr aelodau staff â ni i ddatgan diddordeb ac i gofrestru a chafwyd cefnogaeth y rheolwyr llinell i ryddhau'r aelodau staff. Bydd angen i'r Panel Iaith adolygu'r drefn o gyfeirio staff newydd o'r adran Adnoddau Dynol i'r adran ddwyieithrwydd. Ar nodyn cadarnhaol iawn, safodd y nifer uchaf erioed arholiadau CBAC yn 24/25 - 9 Mynediad, 7 Sylfaen, 2 Canolradd - cyfanswm o 18 a phob un yn llwyddiannus a nifer fawr ohonynt yn sicrhau marciau uchel iawn ac wedi derbyn gwahoddiad i fynd i'r seremoni wobrwyo ym Mhrifysgol Bangor.

5.

	Medi 2024 - Gorffennaf 2025
--	-----------------------------

	Nifer y dosbarthiadau	Nifer ar y cwrs
Cyrsiau dan arweiniad tiwtor		
Mynediad 1	4	22
Mynediad 2	2	10
Sylfaen	2	12
Canolradd	2	11
Uwch	0	0
1: 1 (Tîm Rheoli)	5	5
Cyrsiau hunan-astudio ar-lein		
Mynediad	1	14
Sylfaen	1	2
Cwrs Cymraeg Dwys i Staff		
Mynediad	1	4
Sylfaen	1	6
Cyfanswm	19	86

Mae'r adnodd e-ddysgu ar ymwybyddiaeth iaith i staff y Grŵp bellach wedi'i ymgorffori yn nhrefnau'r Grŵp. Mae'r adnodd yn cael ei gynnal ar safle Moodle y Grŵp ac mae'n rhan o hyfforddiant DPP gorfodol y Grŵp i staff.



Mae'r adnodd yn cynnwys :

- Trosolwg o hanes y Gymraeg ac effaith yr hanes hwn ar yr iaith heddiw
- Diweddariad ar sefyllfa'r Gymraeg mewn addysg o ran polisiau, deddfwriaeth a strategaethau
- Gwybodaeth am gefnogaeth gyda'r Gymraeg yn Ngrŵp Llandrillo Menai

Erbyn diwedd y cyfnod adrodd hwn, mae 65% o staff y Grŵp wedi cwblhau'r cwrs, sef 983 aelod o staff y Grŵp.

5.1. Cwynion

Ni dderbyniodd y Grŵp unrhyw gwynion yn ymwneud â Chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn 2024-25. Os derbynnir unrhyw gwynion, byddwn yn delio â hwy'n unol â'n Polisi Cwynion. Mae copi o'r Polisi Cwynion ar gael ar ein gwefan.

6. Casgliadau ac argymhellion

Mae'r Grŵp yn gwbl ymrwymedig i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac mae cynnwys yr adroddiad yn dangos ein bod wedi gwneud cynnydd gyda grwpiau o safonau ar draws sawl maes.

Mae ein proses archwilio mewnol bellach wedi'i sefydlu'n gadarn ac mae'n caniatáu i ni fonitro ac asesu ein lefelau cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, fel y nodir yn ein hysbysiad cydymffurfio. Mae'r broses hefyd yn ein galluogi i nodi unrhyw gamau unioni sydd eu hangen ac unrhyw ofynion hyfforddi a datblygu.

Mae'r Panel Iaith yn allweddol wrth arwain ar faterion cydymffurfio a sbarduno newid cadarnhaol yn y defnydd o'r Gymraeg ar draws y sefydliad. Bydd y tîm datblygu dwyieithrwydd, dan oruchwyliaeth y Panel Iaith, yn parhau i fonitro ac adolygu cydymffurfiaeth ac yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth i bob adran i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Ngrŵp Llandrillo Menai. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r archwiliad diweddaraf bydd y ffocws yn 2025/26 ar:

1. Parhau i gynnal archwiliad mewnol blynyddol (dan ofal y Cyfarwyddwr Datblygu Dwyieithrwydd, Adnoddau Dysgu a Sgiliau)
2. Monitro a darparu cefnogaeth addas i ddysgwyr y Grŵp er mwyn eu hannog a'u galluogi i barhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ac i gyflwyno gwaith asesu trwy gyfrwng y Gymraeg
3. Sicrhau cefnogaeth strategol i ddysgwyr er mwyn iddynt gwblhau eu gwaith asesu trwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'n ddwyieithog
4. Cynnig diweddariad i staff ar fesurau'n ymwneud ag asesiadau dwyieithog a chyfrwng Cymraeg
5. Cynyddu ymwybyddiaeth o hawliau dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg gyda ffocws ar yr hawl i gael tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg
6. Paru tiwtoriaid personol Cymraeg â dysgwyr Cymraeg iaith gyntaf.
7. Monitro gweithredu polisi recriwtio'r Grŵp, gan gynnwys cyfeirio at y tîm dwyieithrwydd ar gyfer gwersi Cymraeg dwys (dan ofal y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol)
8. Cynnig gwasanaeth cyfrwng Cymraeg ar beiriannau hunan-wasanaeth ar draws y campysau
9. Parhau i gefnogi datblygiad staff o ran defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn prosesau megis cyfarfodydd, cyfweiliadau, prosesau mewnol ac ati
10. Sicrhau bod pob aelod o staff yn cwblhau'r cwrs ymwybyddiaeth iaith ar-lein
11. Cynnig diweddariad i Reolwyr y Grŵp ar ofynion cyfreithiol Safonau'r Gymraeg
12. Atgoffa holl staff o'u cyfrifoldebau unigol dan ofynion Safonau'r Gymraeg drwy ymgych gyfathrebu effeithiol ar draws y Grŵp cyfan (dan ofal y Tîm Polisi)

Atodiad 1

Safonau'r Gymraeg – Archwiliad Cydymffurfio Mewnol 2024/25

Derbyniodd Grŵp Llandrillo Menai [Hysbysiad Cydymffurfio](#) gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg 29/09/2017. Mae'r hysbysiad cydymffurfio hwn yn amlinellu ein cyfrifoldebau o dan Safonau'r Gymraeg. Cwblhawyd yr archwiliad mewnol hwn yn ystod y cyfnod Awst 2024 - Gorffennaf 2025, i wirio a yw'r Grŵp yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac i nodi unrhyw anghenion hyfforddi a allai fodoli.

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu'r camau a gymerwyd, a'r ymatebion a gafwyd, yn ystod yr archwiliad mewnol.

Categori	Is-gategori	Gweithred a chanlyniad yr archwiliad mewnol	Camau dilynol
Gwasan aethau	Gohebiaeth	E-bost Gyrrwyd neges e-bost Gymraeg a neges e-bost Saesneg i 80 o gyfeiriadau e-bost y Grŵp. - Cysylltwyd yn y Gymraeg a derbyniwyd ateb Cymraeg prydlon gan 36 - Cysylltwyd yn y Saesneg derbyniwyd ateb Saesneg gan 23 - Ni chafwyd ateb i'r neges Gymraeg na Saesneg gan 19 cyfeiriad e-bost ac felly fe yrrwyd neges arall - Cysylltwyd yn y Gymraeg a derbyniwyd ateb Saesneg gan 2	HJ wedi hysbysu'r rheolwr yn yr adran lle na dderbyniwyd ymateb yn y Gymraeg. HJ wedi cysylltu â'r rheolwr perthnasol i wirio'r negeseuon e-bost y cafwyd ateb Saesneg iddynt.
		Ffurflen cysylltu ar-lein Anfonwyd neges yn y Gymraeg trwy'r dudalen 'Cysylltu â ni' ar y wefan a derbyniwyd ateb Cymraeg. Mae'r ffurflen hon yn cynnwys neges yn nodi y croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg.	
		Gwe-sgwrsio - Anfonwyd neges gwe-sgwrsio yn y Gymraeg a derbyniwyd ateb yn y Gymraeg - Mae'r neges gwe-sgwrsio Gymraeg yn cynnwys testun Cymraeg ar y botwm dechrau sgwrs – 'Cysylltu â ni'	
	Galwadau ffôn	Gwnaed 40 galwad ffôn Cymraeg i'r prif switsfyrddau ar draws y Grŵp. Derbyniwyd gwasanaeth Cymraeg ar bob achlysur	

	Derbynfeydd	Ymwelwyd â naw safle fel rhan o'r archwiliad. Ar bob achlysur cafwyd gwasanaeth Cymraeg ac roedd staff y derbynfeydd yn gwisgo laniard yn nodi eu bod yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg. Cynhaliwyd sgwrs ddwyieithog yn ystod dau ymweliad, i ddau gampws gwahanol, gyda'r derbynnnydd yn egluro ei bod yn dysgu Cymraeg a chynnig i'r ymwelydd siarad ag aelod o staff yn y Gymraeg. Cynhaliwyd 42 sgwrs uniaith Gymraeg fel rhan o'r archwiliad.	
	Arwyddion	Edrychwyd ar arwyddion mewn naw safle. • Roedd arwyddion ar bum safle'n gwbl ddwyieithog • Roedd arwyddion ar dri safle'n ddwyieithog yn bennaf, er bod rhai achosion lle'r oeddent yn Saesneg yn unig • Roedd arwyddion ar un campws wedi'u cyfieithu'n anghywir, trwy ddefnydd o gyfieithu peiranyddol • Roedd arwyddion yn ddwyieithog ar un safle ond nodwyd sawl achos o bosteri ac arwyddion uniaith Saesneg	HJ ac SP wedi cysylltu â'r rheolwyr perthnasol i wirio'r poster. Rheolwyr yr adran wedi adrodd yn ôl i'r aelodau'r staff sy'n berchen ar y poster i addasu'r poster. Mae'r poster Saesneg wedi'u tynnu i lawr a rhai dwyieithog wedi'u gosod yn eu lle. Anogwyd adrannau i ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu mewnol y Grŵp i sicrhau cywirdeb iaith y testun.
	Ffurflenni	Edrychwyd ar 12 ffurflen ar-lein. • Roedd saith yn ddwyieithog, ac roedd y pump arall ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn nodi hynny'n glir. Mae'r ffurflenni Cymraeg ar wefan Gymraeg y Grŵp yn nodi bod fersiwn Saesneg o'r ffurflen ar gael ac mae'r ffurflenni Saesneg ar y wefan Saesneg yn nodi bod fersiwn Cymraeg ar gael.	
	Cyhoedduswydd a marchnata	Edrychwyd ar 27 datganiad i'r wasg ar wefan y Grŵp. • Roedd 24 ohonynt yn gwbl Gymraeg. • Roedd tri yn cynnwys Saesneg (Fersiwn Saesneg o'r testun o dan y fersiwn Cymraeg)	SP wedi cysylltu â Rheolwr yr Adran i ddatrys y problemau.
	Gwefan	Edrychwyd ar dudalennau gwe'r Grŵp. • Tudalennau gwe'r Grŵp yn gwbl ddwyieithog	

		Gwefan y Grŵp yn rhoi dewis iaith cyn mynd ymlaen i edrych ar y wybodaeth	
	Cyfryngau cymdeithasol	Edrychwyd ar gyfrifon cymdeithasol swyddogol/corfforaethol ac adrannol y coleg 116 o weithiau. Adolygwyd cyhoeddiadau ar draws pedwar llwyfan gwahanol – X (Twitter), Facebook, TikTok ac Instagram. - Mae 24 o'r cyfrifon a adolygwyd wedi cyhoeddi negeseuon yn ddwyieithog neu gyda chyhoeddiad ar wahân i'r Gymraeg a Saesneg - Roedd y Gymraeg yn gywir o ran ystyr a mynegiant yn 24 o'r cyhoeddiadau - Roedd y Gymraeg wedi cael ei gosod fel bod y Gymraeg yn debygol o gael ei darllen yn gyntaf. - Dydi saith o'r cyfrifon cymdeithasol ddim yn bodoli bellach - Dydi'r Grŵp ddim yn defnyddio Twitter (X) bellach, felly mae chwe chyfrif wedi cael eu diddymu ers 2025	HJ wedi cysylltu gyda pherchennog/ rheolwr un o'r cyfrifon cymdeithasol adrannol i'w hysbysu o'r Safonau a chynnig canllawiau a chefnogaeth HJ wedi adrodd i Reolwr (AB) bod saith o'r 24 o'r cyfrifon ddim yn bodoli bellach
	Digwyddiadau cyhoeddus	Mynychwyd 10 digwyddiad cyhoeddus. Roedd popeth yn ddwyieithog o ran hyrwyddo'r digwyddiad, e.e. e-bost dwyieithog a datganiad i'r wasg yn y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu rhannu ar adran newyddion y Grŵp. Roedd ffrydiau ar y cyfryngau cymdeithasol yn hyrwyddo enillwyr gwobrau yn ddwyieithog.	
Gweithr edu	Penodi staff newydd	Adolygwyd 14 swydd wag. - Hysbysebwyd pob un ohonynt yn y Gymraeg ac roedd disgrifiad swydd dwyieithog ar gael, gyda'r Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf - Mae gofyn i ddarpar ymgeiswyr lawrlwytho swydd ddisgrifiad/ manyleb person ar gyfer pob swydd. Roedd dau achos o'r neges hon yn ymddangos yn y Saesneg ar dudalen Gymraeg y wefan - Mae'r ffurflen gais yn ddwyieithog ac yn cynnwys blwch i'r ymgeisydd ofyn am gyfweliad/asesiad yn y Gymraeg - Mae'r ffurflen gais yn gofyn am hunanasesiad o sgiliau Cymraeg ymgeiswyr gan ofyn iddynt nodi a oes ganddynt sgiliau Uwch, Canolradd, Sylfaenol, Mynediad neu Gwrteisi Ieithyddol ar gyfer Siarad, Dealltwriaeth a Llythrennedd	SP wedi cysylltu a'r adran AD/ tîm recriwtio i'w hysbysu.
	Hyfforddiant staff	Adolygwyd 19 o ddigwyddiadau hyfforddi ar STEPS yn ystod 24/25; roedd naw yn ddigwyddiad ar-lein a deg yn ddigwyddiad wyneb yn wyneb. Roedd crynodeb o'r cwrs ar gyfer y 19	SP wedi cysylltu â MN i ofyn i iaith y cwrs gael ei gynnwys yn y wybodaeth.

		ohonynt yn ddwyieithog - Ni nodwyd iaith yr hyfforddiant am ddeg digwyddiad (Awdit Rhagfyr 2024) - Roedd crynodeb dwyieithog yn ogystal ag iaith y cwrs i'w gweld fel rhan o awdit diwedd y flwyddyn (Awst 2025)	
	Mewnrwyd staff	Adolygwyd y systemau canlynol: - Porth y Grŵp - Proffil y Grŵp (Negeseuon i'r Grŵp) - EDRAC i Ddysgwyr - EDRAC i Staff - Proactis - My View - Onefile - Hwb Llesiant y Dysgwyr - Sgiliau Astudio a Chymorth TG - Peiriannau Talu â Cherdyn - Peiriannau Gwerthu Roedd dwy o'r systemau yn uniaith Saesneg. Roedd deg arall ar gael yn y Gymraeg neu'n rhannol yn y Gymraeg ond doedd y Gymraeg ddim bob amser yn gywir ac roedd yn cynnwys nifer o eiriau Saesneg oedd heb gael eu cyfieithu.	HJ wedi cysylltu â SP ynglŷn â Pheiriannau Talu a Gwerthu, ac wedi cysylltu â'r adrannau corfforaethol ynglŷn ag iaith y peiriannau allanol. HJ a SP wedi trafod OneFile gyda'r tîm masnachol - Rhaglen/Platfform o Loegr ydyw felly mae'r system yn uniaith Saesneg. Serch hynny, mae tiwtoriaid ac aseswyr yn sicrhau mynediad at wybodaeth Cymraeg a/neu ddwyieithog i ddysgwyr - asesiadau, adolygiadau cynnydd ac ati
Llunio Polisiâu	Penderfyniadau a dogfennau polisi	Adolygwyd chwe pholisi sydd wedi cael eu cyhoeddi ar y Porth ar hap. - Roedd pob un o'r chwe pholisi ar gael yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog - Roedd pob un o'r chwe pholisi gyda'r teitl Cymraeg ar ochr Cymraeg y Porth - Roedd asesiad o'r effaith ar y Gymraeg wedi'i gwblhau ar gyfer pob un o'r chwe pholisi	Parhau i adolygu polisiâu ar y gweill.